# Beth yw ymchwil gofal cymdeithasol?

## Canllawiau Ymchwil Gofal Cymdeithasol
## Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

**Cyflwyniad**

Yn 2014, bu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n adolygu diffiniadau o ofal cymdeithasol o amrywiaeth o ffynonellau'r DU a rhai rhyngwladol. Cynullwyd gweithdy undydd hefyd i ddatblygu canllawiau ar y cwestiwn 'Beth ydy Ymchwil Gofal Cymdeithasol?'. Daeth amrywiaeth o randdeiliaid o Gymru a Lloegr i'r gweithdy, gan gynnwys academyddion ymchwil, ymarferwyr gofal cymdeithasol, ac aelodau'r cyhoedd.

Casglwyd canlyniadau'r gweithdy at ei gilydd a'u crynhoi mewn nifer o feysydd allweddol. Dosbarthwyd y rhain i is-set o'r rheini a fynychodd y gweithdy iddyn nhw wneud sylwadau pellach a rhoi adborth hyd nes y cafwyd consensws.

Mae'n bwysig ystyried y canlynol fel canllawiau yn hytrach na diffiniad o ymchwil gofal cymdeithasol. Mae'n anochel y bydd hi'n anodd categoreiddio rhai prosiectau ymchwil fel eu bod nhw'n amlwg yn perthyn i'r naill gategori neu'r llall, yn enwedig y rheini a gynhelir lle daw gofal cymdeithasol ac iechyd at ei gilydd.

**Canllawiau**

Er mwyn i Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ystyried bod ymchwil yn 'Ymchwil Gofal Cymdeithasol', dylai'r ymchwil ganolbwyntio'n fras ar o leiaf un o'r canlynol:

- Darpariaeth gofal, cefnogaeth a chymorth personol yng nghyd-destun perthnasoedd rhyngbersonol, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, o ran: gweithgareddau byw dyddiol, cynnal annibyniaeth, rhyngweithio cymdeithasol, galluogi'r unigolyn i chwarae rhan lawnach yn y gymdeithas, cynorthwyo unigolion i reoli perthnasoedd cymhleth, a chynorthwyo'r unigolyn i ddefnyddio neu dderbyn gwasanaethau cartref gofal neu lety arall â chymorth, neu i fanteisio ar gyfleusterau addysgol.
- Darpariaeth: cyngor; cymorth ymarferol yn y cartref; cymorth ag offer ac addasiadau i'r cartref; gofal ymwelydd neu ofal seibiant; prydau bwyd; neu gyfleusterau ar gyfer gweithgareddau galwedigaethol, cymdeithasol, diwylliannol ac adloniadol y tu allan i'r cartref.
- Darpariaeth: gwasanaethau diogelu neu gefnogi cymdeithasol ar gyfer plant neu oedolion mewn angen neu mewn risg, neu'r rheini ag anghenion cymdeithasol oherwydd salwch, anabledd, oedran neu dlodi.

- Anghenion cymdeithasol pobl sy’n derbyn gofal cymdeithasol, a’r gwasanaethau neu fentrau sy’n diwallu’r anghenion hynny, gan gynnwys: atal dirywiad; hybu iechyd corfforol neu iechyd meddwl; gwella cyfleoedd cyffredinol a chyfleoedd mewn bywyd; cryfhau teuluoedd; a diogelu hawliau dynol.
- Y systemau cyfundrefnol, seilweithiau, lleoliadau gofal, a/neu’r personél sydd a wnelo â rheoli ac arwain, comisiynu, darparu, cyflenwi, monitro a gwerthuso gwasanaethau gofal a chefnogaeth, a/neu’r rhyngwyneb rhyngddyn nhw; neu effaith yr uchod ar systemau cysylltiedig fel gofal iechyd, addysg, tai, a’r system cyfiawnder troseddol.
- Polisïau cenedlaethol a/neu leol sy’n effeithio ar ethos, comisiynu, trefnu, darparu, monitro a gweithredu, a chyflenwi gwasanaethau gofal a chefnogaeth.
- Gwella cydlyniad cymdeithasol a chymunedol (yn hytrach na’r unigolyn).

Mae cwestiynau defnyddiol sy’n gallu helpu i benderfynu a ydy prosiect ymchwil yn Ymchwil Gofal Cymdeithasol ai peidio’n cynnwys:

- Beth ydy’r cwestiwn ymchwil?
- Pam fod galw am yr ymchwil?
- Beth ydy diben yr ymchwil a phwy neu beth fydd yr ymchwil o fudd iddo? (gallai enghreifftiau cymwys fod yn: ddefnyddwyr gwasanaeth, darparwyr gwasanaeth, gofalwyr, ymarferwyr gofal cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol a gweithwyr eraill, cleifion, academyddion a theulu).
- Beth ydy’r canlyniadau cymdeithasol (gofal)?
- Beth ydy perthnasedd y cais i bolisi gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru?
- Pwy allai ddarllen canlyniadau’r ymchwil? (e.e. ymarferwyr gofal cymdeithasol, llunwyr polisi, neu academyddion).